RHONDDA CYNON TAF

# PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Llun, 7 Tachwedd 2022 am 2.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid

### 67 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

### 68 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022.

### 69 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif: Llety Anghenion Sylfaenol - Ystafelloedd Dosbarth Ychwanegol yn Ysgol Gyfun Y Pant

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am ddarpariaeth ystafelloedd addysgu ychwanegol yn Ysgol Gyfun y Pant, yn dilyn yr adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar 13 Rhagfyr 2021. Roedd yr adroddiad wedi tynnu sylw at y pwysau cynyddol ar niferoedd disgyblion yn ne'r Fwrdeistref Sirol.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi argymell bod y Cabinet yn ystyried cymeradwyo gwaith adeiladu bloc addysgu deulawr yn Ysgol Gyfun y Pant. Yn rhan o'r rhaglen fesul cam, bydd y llawr cyntaf yn cael ei gwblhau yn y lle cyntaf, a'r llawr gwaelod ar ôl hynny yn ôl gofynion capasiti'r ysgol. Byddai'r cynnig yn caniatáu i'r Cyngor barhau i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu'r nifer priodol o leoedd ysgol yn y lleoliadau cywir.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg fod cwmpas y cynllun arfaethedig wedi newid sydd wedi effeithio ar gost y prosiect a'r rhaglen gyflawni.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod Ysgol Gyfun y Pant yn ysgol ddeniadol, ac yn fwy deniadol fyth ers iddi gael gwedd newydd yn dilyn buddsoddiad yn 2018. Nodwyd bod y dalgylch yn ardal lle mae twf sylweddol yn nifer y tai a'r boblogaeth. Rhagwelir cynnydd yn y galw am leoedd ysgol. Daeth yr Aelod o'r Cabinet i gasgliad trwy nodi bod y cynnig gerbron yr Aelodau yn effeithiol o ran cost, yn gynaliadwy ac y byddai'n helpu'r ysgol i fodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am leoedd yn yr ysgol.

Siaradodd yr Arweinydd o blaid y cynigion a phwysigrwydd defnyddio adeiladau dros dro cyn lleied â phosibl pan fo cynnydd tymor byr yn nifer y disgyblion. Roedd yn hapus gyda mesurau diogelu'r ysgolion ar gyfer y dyfodol yn nhermau twf a nododd fod y sefyllfa tymor hwy yn dangos bod tair ysgol gyfun yr ardal bron yn llawn, a hynny yn bennaf yn sgil y twf yn y boblogaeth yn ardal ddeheuol y Sir.

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau blaenorol a nododd fod y twf sylweddol yn nifer y tai yn ne'r Fwrdeistref Sirol wedi arwain at alw mawr am leoedd ysgol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r newidiadau sy'n effeithio ar leoedd ysgol fel y nodir yn yr adroddiad.
2. Cymeradwyo'r newidiadau i gwmpas y prosiect.
3. Cymeradwyo'r cynnydd yn y buddsoddiad cyfalaf i adeiladu bloc addysgu deulawr newydd yn Ysgol Gyfun y Pant.

**70 Sylfaen Treth y Cyngor 2023-2024**

Cyflwynodd Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau yr adroddiad i'r Cabinet, sy'n nodi Sylfaen Treth y Cyngor yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Dywedodd y swyddog mai £80,182.87 oedd y Sylfaen Treth y Cyngor a gyfrifwyd ar gyfer 2023/24 a chynigiodd y dylid amcangyfrif mai 97.25% yw'r gyfradd gasglu, sy'n arwain at Sylfaen Treth y Cyngor net o £77,977.84. Eglurwyd y byddai swm o £77,978 yn cael ei godi i fodloni gofynion cyllideb y Cyngor am bob £1 a gaiff ei godi mewn Treth y Cyngor y flwyddyn nesaf.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol yn falch o gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bwysig ar gyfer Cynghorau Cymuned wrth iddyn nhw bennu eu cyllidebau.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad a **PHENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd, y swm sydd wedi'i gyfrifo gan y Cyngor fel ei sylfaen dreth net ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24, fydd £77,977.84;
2. Bydd sylfaen dreth 2023/24 at ddibenion gosod Treth y Cyngor yn

cael ei nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad, ar gyfer pob cymuned ddiffiniedig yn y Fwrdeistref Sirol.

**71 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd - 3A**

**PENDERFYNODD** y Cabinet nodi'r newidiadau i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**